# Grant ‘Plygu Perthi Traddodiadol’ 2024/25



**Mae Partneriaeth Natur Leol (PNL) Bannau Brycheiniog yn gwahodd ffermwyr a thirfeddianwyr sy’n byw ac yn gweithio ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i helpu i adfer perthi drwy eu plygu yn yr arddull ‘draddodiadol’ gyda choesynnau wedi’u torri, pyst a rhwymynnau.**

Mae plygu perthi yn hyrwyddo aildyfiant o lefel y ddaear a bydd perth sydd wedi'i phlygu’n dda yn ffurfio rhwystr stoc am flynyddoedd i ddod. Bydd perth sydd wedi’i phlygu’n dda yn cynnig bwyd a lloches ac yn gweithredu fel coridor bywyd gwyllt yn y dirwedd. Mae'r bartneriaeth am gynnal y sgiliau traddodiadol a’r grefft o blygi perthi yn yr arddull sy'n briodol i'r ardal o fewn y Parc Cenedlaethol, boed hynny'n arddull 'Brycheiniog', 'Mynwy' neu 'Sir Gâr'.

Drwy gynnal y sgiliau traddodiadol hyn a rheoli perthi’n dda, bydd y dirwedd, pobl a bioamrywiaeth y parc i gyd yn elwa.

## Gofynion:

Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun hwn drwy'r prosiect 'Cysylltu pobl a thirweddau ar draws Bannau Brycheiniog'. Er mwyn cyflawni'r cysylltiad hwn, bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod eu perthi wrth ymyl neu ar dir o fewn 50m i Hawl Tramwy Cyhoeddus, gan gynnwys ffyrdd, llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Dylai ymgeiswyr fod yn ffermwyr gweithredol yn y Parc Cenedlaethol gyda rhif cyfeirnod cwsmer fferm a rhif prif ddaliad.

## Y Cynnig:

Plygu perthi yn yr ‘arddull draddodiadol’ yn unol â'r safonau a nodir yn Llyfryn Canllaw Technegol Gwaith Cyfalaf Grantiau Bach Glastir: Tirwedd a Pheillwyr 2021, Adran 902 Plygu perthi. (Mae canllawiau a safonau pellach ar gael yn y nodiadau canllaw).

Bydd y grant yn cynnig taliad ar gyfradd benodol o £15 y fetr, wedi'i gapio ar uchafswm o 300 metr. Mae'n rhaid diogelu gwrychoedd a blygir rhag difrod posibl a rhaid i'r tirfeddiannwr fod yn barod i ymrwymo i waith cynnal a chadw hirdymor (10+ mlynedd) ar ei berthi. Dim ond un cais fesul ffermwr/fferm.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn cyflwyno cais neu os oes angen cymorth arnoch gyda'r ffurflen, cysylltwch â ni yn hedgerowgrant@beacons-npa.gov.uk

*Ariannwyd gan*

BRECON BEACONS LOCAL NATURE PARTNERSHIP — A Future With Nature At Its Heart

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL LOCAL NATURE PARTNERSHIPS CYMRU

WCVA CGGC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government